**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**

# IS-DDEDDFAU EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR (GWAHARDD PYSGOTA Â RHWYDI) (AFON DYFRDWY) (CYMRU) 2025

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer pwerau a roddwyd iddo gan adran 210 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 a pharagraffau 6(1)(b) a 6(2)(c) o Atodlen 25 iddi, yn gwneud yr is-ddeddfau a ganlyn.

## Is-ddeddf 1 – Teitl

Gellir cyfeirio at yr is-ddeddfau hyn fel Is-ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Gwahardd Pysgota â Rhwydi) (Afon Dyfrdwy) (Cymru) 2025.

## Is-ddeddf 2 – Cymhwyso'r Is-ddeddfau

(a) Mae'r is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r rhannau hynny o afon Dyfrdwy, ei haber a'i llednentydd sydd yng Nghymru.

(b) Dylid darllen yr is-ddeddfau hyn ar y cyd â'r is-ddeddfau canlynol (fel y'u diwygiwyd):

(i) Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995

(ii) Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999

## Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

Mae "Cymru" yn golygu Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r llinellau sylfaen y mae lled y môr hwnnw'n cael ei fesur ohonynt.

Bydd i bob gair ac ymadrodd a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yr ystyron a roddir iddynt gan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, neu unrhyw addasiadau statudol neu ailddeddfiad ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Gwahardd Pysgota â Rhwydi ar gyfer Eogiaid neu Frithyllod y Môr ar Afon Dyfrdwy**

O 1 Gorffennaf 2025, bydd is-ddeddf 5(b)(i) o Is-ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Pysgota â Rhwydi) 1995 yn cael ei dirymu.

**Is-ddeddf 5 – Diwygiadau**

Mae'r diwygiadau a nodir yn yr atodlen yn cael effaith.

## ATODLEN

## DIWYGIADAU I IS-DDEDDFAU PRESENNOL

1. **Is-ddeddfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995**

   (a) Ym mharagraff (ii) o Is-ddeddf 4, yn lle "afonydd Dyfrdwy a Chlwyd", rhodder "afon Clwyd".

   (b) Ym mharagraff (c)(v)(a) o Is-ddeddf 5, hepgorer "yn afon Dyfrdwy".

   (c) Yn lle paragraff (d)(iv)(e) o Is-ddeddf 5, rhodder –

   "(e) Yn afonydd Teifi a Thywi, ni chaniateir taflu na rhyddhau unrhyw rwyd sân o unrhyw bwynt o fewn 91 metr o'r pwynt y mae unrhyw rwyd sân yn cael ei thynnu i mewn neu wedi cael ei thynnu i mewn a'i glanio tan ar ôl i 15 munud ddod i ben wedi i rwyd o'r fath y soniwyd amdani ddiwethaf gael ei thynnu i mewn yn llawn a'i glanio."

2. **Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999**

   Ym mharagraff (1) o Is-ddeddf 4, hepgorer "afon Dyfrdwy;".

#289

CYFLAWNWYD fel gweithred gan

CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

trwy osod y Sêl Gyffredin ym mhresenoldeb:

Llofnod: ...S. Asbrey...

Enw mewn llythrennau bras: ...S. ASBREY...

Cyfeiriad: ...Government Buildings...

...Cathays Park...

...Cardiff...

Swydd: ...Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.